**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **18 GORFFENNAF 2013** |
| TEITL | **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2012/13** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO'R DATGNIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (YN YMGORFFORI DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL STATUDOL) AR GYFER 2012/13 I'R PWYLLGOR ARCHWILIO AM GYMERADWYAETH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R DATGANIAD AT BWRPASAU EI ARWYDDO GAN ARWEINYDD Y CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR** |

---

## 1. CYFLWYNIAD – BETH YW PWRPAS Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL?

1.1 Mae gofyn statudol am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol fel canlyniad i gynnwys:

- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010), sy'n datgan:

  **Rhaid i'r corff llywodraeth leol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei system o reoli mewnol, a rhaid cynnwys datganiad ar reoli mewnol, a baratowyd yn ôl arferion priodol, lle bo'n berthnasol, ynghyd ag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n rhwym arno i'w gyhoeddi.**

- Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y "SORP")

- Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*, ac atodiadau dilynol. Cyhoeddwyd yn atodiad diweddaraf yn Rhagfyr 2012.

1.2 Mae'r ddeddfwriaeth a chanllawiau yn y maes wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd.

1.3 Diffinnir yr "Arferion Priodol" ar gyfer paratoi'r Datganiad Rheolaeth Fewnol statudol fel Datganiad CIPFA o Ymarfer Argymelledig ("SORP"), sef y Côd Ymarfer ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r SORP yn ei dro yn datgan fod angen ystyried Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government* fel arferion priodol hefyd. Cyhoeddwyd hwnnw yn 2007 er mwyn rhoi arweiniad clir i awdurdodau lleol er anogaeth gweithrediad gyson wrth ymdrin ag agweddau llywodraethu. Cyhoeddwyd atodiadau pellach yn 2010 a 2012 yn cynnwys gofynion ychwanegol.

1.4 Mae'r SORP a Fframwaith CIPFA / SOLACE ill dau yn mynegi erbyn hyn fod angen cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol ehangach, sy'n ymgorffori'r Datganiad Rheolaeth Fewnol.

1.5 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, felly, yw arddangos fod yr awdurdod wedi ystyried ei fframwaith lywodraethu, ac adrodd fod y fframwaith hwnnw'n parhau'n ddigonol ac yn gweithredu'n effeithiol, gyda cynlluniau yn eu lle i weithredu ble gwelir unrhyw wendidau arwyddocaol.

## 2. PROFFIL Y DATGANIAD

2.1 Mae proffil y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynyddu'n barhaus. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad cenedlaethol o drefniadau llywodraethu, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygiad y Datganiad.

2.2 Roedd astudiaeth SAC yn canolbwyntio ar yr hyn yma'r awdurdod wedi'i wneud o ran:

- pennu lefel y sicrwydd sy'n ofynnol mewn perthynas â phob agwedd ar lywodraethu a adlewyrchir yng nghanllawiau CIPFA;
- sicrhau bod y lefel ofynnol o sicrwydd yn cael ei darparu;
- codi ymwybyddiaeth ymhlith y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu o'u cyfrifoldebau.

2.3 Bydd swyddogion SAC yn adrodd ar ganlyniad yr astudiaeth yma i'r Pwyllgor fel eitem ar wahân ar raglen heddiw.

2.4 Yn ogystal â'r astudiaeth yma, mae cwmni cyfrifwyr Grant Thornton yn cynnal adolygiad blynyddol o lywodraethu mewn awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r adolygiadau hyn yn cynnwys cyfeiriad at ymarfer da mewn rhai awdurdodau, sydd wedi eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad yma.

## 3. SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR ARCHWILIO

3.1 Oherwydd rôl allweddol y Pwyllgor Archwilio yng nghyd-destun fframwaith lywodraethu'r Cyngor, mae gan y Pwyllgor swyddogaeth i herio dulliau paratoi a chynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft, cyn argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo. Yn wir, mae cymal ychwanegol yn y Datganiad eleni yn deillio o ofynion Atodiad Rhagfyr 2012 sy'n cyfeirio yn benodol at rôl y Pwyllgor Archwilio yn y broses. Wrth iddynt arwyddo'r Datganiad Llywodraethu, mae'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn cadarnhau:

"Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod."

3.2 Felly, wrth gyflawni'r rôl yma, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio ystyried:

- Beth a olygir gan y "Fframwaith Llywodraethu"?
- Ydi'r trefniadau i adolygu effeithiolrwydd y fframwaith lywodraethu yma yn addas?

## 4. Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU

4.1 Yn ôl Atodiad Rhagfyr 2012 i ganllawiau CIPFA / SOLACE, mae elfennau allweddol y systemau a phrosesau sy'n rhan o lywodraethu awdurdod yn cynnwys trefniadau ar gyfer:

- nodi a chyfathrebu gweledigaeth yr awdurdod o'i bwrpas a'r canlyniadau a fwriedir i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth
- adolygu gweledigaeth yr awdurdod a'i goblygiadau ar gyfer trefniadau llywodraethu yr awdurdod
- trosi'r weledigaeth yn amcanion ar gyfer yr awdurdod a'i bartneriaethau
- mesur ansawdd y gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr, am sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno yn unol ag amcanion yr awdurdod ac am sicrhau eu bod yn cynrychioli'r gorau defnydd o adnoddau a gwerth am arian
- diffinio a dogfennu rolau a chyfrifoldebau'r weithrediaeth, di-weithredol, swyddogaethau craffu a swyddogion, gyda threfniadau dirprwyo clir a phrotocolau ar gyfer cyfathrebu effeithiol mewn perthynas â'r awdurdod a threfniadau partneriaeth
- datblygu, cyfathrebu a sefydlu codau ymddygiad, yn diffinio'r safonau ymddygiad ar gyfer aelodau a staff
- adolygu effeithiolrwydd fframwaith gwneud penderfyniadau yr awdurdod, gan gynnwys trefniadau dirprwyo, gwneud penderfyniadau mewn partneriaethau a chadernid ansawdd data
- adolygu effeithiolrwydd y fframwaith ar gyfer nodi a rheoli risgiau a dangos atebolrwydd clir
- sicrhau bod trefniadau gwrth-dwyll a gwrth-lygredd effeithiol yn cael eu datblygu a'u cynnal
- sicrhau rheolaeth effeithiol o newid a thrawsnewid
- sicrhau bod trefniadau rheoli ariannol yr awdurdod yn cydymffurfio â'r gofynion llywodraethu yn Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Ariannol Swyddog mewn Llywodraeth Leol (2010), a lle nad ydynt, esbonnir pam, a sut y maent yn cyflawni'r un effaith
- sicrhau trefniadau sicrwydd yr awdurdod yn cydymffurfio â'r gofynion llywodraethu yn Datganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol (2010) ac, os nad ydynt, esbonnir pam, a sut y maent yn cyflawni'r un effaith
- sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer cyflawni swyddogaeth y swyddog monitro
- sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer cyflawni swyddogaeth pennaeth y gwasanaethau taledig
- ymgymryd â swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio, fel y nodwyd yn nogfen CIPFA Pwyllgorau Archwilio: Arweiniad Ymarferol i Awdurdodau Lleol
- sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol, polisïau a gweithdrefnau mewnol, a bod gwariant yn gyfreithlon
- canu'r gloch a derbyn ac ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd
- nodi anghenion datblygu aelodau ac uwch swyddogion mewn perthynas â'u rolau strategol, a gefnogir gan hyfforddiant priodol
- sefydlu sianeli cyfathrebu clir gyda phob rhan o'r gymuned a rhanddeiliaid eraill, gan sicrhau atebolrwydd ac annog ymgynghori agored
- gwella atebolrwydd ar gyfer darparu gwasanaethau ac effeithiolrwydd cyhoeddus eraill darparwyr gwasanaeth
- ymgorffori trefniadau llywodraethu da ar gyfer partneriaethau a mathau eraill o weithio ar y cyd fel y nodwyd yn adroddiad y Comisiwn Archwilio ar lywodraethu partneriaethau, ac adlewyrchu'r rhain yn nhrefniadau llywodraethu cyffredinol yr awdurdod.

4.2 Mae'n dilyn felly fod angen i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gynnwys cyfeiriad i'r uchod. Fodd bynnag, un o'r beirniadaethau sydd wedi eu codi mewn astudiaethau cenedlaethol yw fod datganiadau yn dueddol o gael eu strwythuro gan ddilyn y penawdau hyn yn ddeddfol. Er fod hynny yn darparu rhestr wirio gyfleus er mwyn sicrhau fod popeth wedi derbyn sylw, gall wneud y Datganiad yn anhygyrch ac anodd ei ddarllen. Dyma'r hyn sydd wedi cael ei wneud gan Gyngor Gwynedd yn y gorffennol (ac yn 2012 roedd yn dilyn strwythur y Côd Llywodraethu Lleol hefyd), ond eleni mae'r Datganiad yn dilyn trefn sy'n ymddangos yn fwy resymegol, tra ar yr un pryd yn rhoi sylw haeddiannol i bob un o'r pwyntiau a restrir yn 4.1 uchod.

4.3 Cymeradwywyd Côd Llywodraethu Lleol y Cyngor gan y Bwrdd ar 5 Ebrill 2011; mae'r côd ym yn mynd llawer o'r ffordd i esbonio beth yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor, ac felly yn mynd dros lawer o'r un tir â'r hyn sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'n seiliedig ar y chwech egwyddor craidd yn Fframwaith CIPFA / SOLACE, sef:

| | |
|---|---|
| Egwyddor Graidd 1: | Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar y deilliannau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth yr ardal leol (yn cynnwys dinasyddion a defnyddwyr i'r gwasanaeth). |
| Egwyddor Graidd 2: | Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir. |
| Egwyddor Graidd 3: | Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad. |
| Egwyddor Graidd 4: | Cymryd penderfyniadau thryloyw ac ar sail tystiolaeth sy'n cael eu craffu yn effeithiol a rheoli risg. |
| Egwyddor craidd 5: | Datblygu capasiti a gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol. |
| Egwyddor craidd 6: | Ymgysylltu gyda phobl leol a budd-ddeiliad eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn. |

## 5. ADOLYGIAD O EFFEITHLONRWYDD Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU

5.1 Mae'r Pwyllgor Archwilio angen sicrwydd fod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir yn Rhan 3 o'r Datganiad Llywodraeth Blynyddol yn gweithio fel y dylent. Er mwyn derbyn y sicrwydd yma, bydd angen i'r Pwyllgor ystyried os ydi'r gweithgareddau a ddisgrifir yn Rhan 4 o'r Datganiad yn ddigonol i ddod i farn am y trefniadau llywodraethu hyn.

5.2 Un o feirniadaethau'r archwilwyr allanol yn y gorffennol am drefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer paratoi'r Datganiad oedd ei fod yn dueddol o gael ei weld yn bennaf fel swyddogaeth ar gyfer Archwilio Mewnol (er nad oedd cyfryw drefniadau yn unigryw i'r Cyngor yma o bell ffordd). Mae trefniadau o'r fath yn cyfyngu ar berchnogaeth y Datganiad, gan gynyddu'r risg nad yw yn cael ei weld fel dogfen gorfforaethol.

5.3 Mewn ymateb i hyn, ac er mwyn gwella'r adolygiadau o drefniadau llywodraethu a fyddai'n arwain at Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2013, ffurfiwyd Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ystod y flwyddyn er mwyn er mwyn cadw golwg parhaus, mwy disgybledig ar faterion llywodraethu, codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, a hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Aelodau'r Grŵp ydi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (DOW), Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol, Uwch Reolwr y Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg.

5.4 Fel rhan o'i waith, mae'r Grŵp wedi cyfarfod ers Ionawr 2013 er mwyn sganio am ddatblygiadau sy'n berthnasol i lywodraethu, a rhoi sylw priodol iddynt yn y Datganiad. Roedd 2012-13 yn flwyddyn arwyddocaol wrth gwrs gan fod llawer o waith o ystyried risgiau strategol wedi ei gyflawni er mwyn datblygu'r Cynllun Strategol newydd.

5.5 Cymeradwywyd y Datganiad Llywodraethu drafft, yn amodol ar rai mân addasiadau, gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ar 26 Mehefin 2013.

5.6 Felly, yn hytrach na dilyn yr un trywydd ag mewn blynyddoedd blaenorol lle roedd y Datganiad yn cael ei ddrafftio gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, ei anfon o gwmpas swyddogion allweddol am sylwadau ac yna mynd i'r Pwyllgor Archwilio am sêl bendith, mae trafodaethau ymhlith swyddogion wedi arwain at lwybr ychydig yn wahanol eleni. Er hyn, credir fod y trefniadau newydd yn cadw balans rhwng cael trefn effeithlon a gallu tystiolaethu fod y trefniadau llywodraethu wedi derbyn sylw priodol.

5.7 Wrth symud ymlaen i 2013/14, y bwriad yw i'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu gyfarfod o leiaf yn chwarterol trwy'r flwyddyn (efallai'n amlach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar adeg paratoi'r Datganiad Llywodraethu) er mwyn ystyried unrhyw waith sydd wedi ei gynnal yn y cyfnod blaenorol i asesu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu. Bydd y Grŵp yn adrodd wedyn i'r Pwyllgor Archwilio.

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio herio'r prosesau a ddefnyddiwyd er mwyn asesu os yw'r trefniadau i adolygu effeithiolrwydd y fframwaith lywodraethu y Cyngor yn addas.

6.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn ymgorffori Datganiad Rheolaeth Fewnol Cyngor Gwynedd, ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 a'r cyfnod ers dyddiad y fantolen.